

Cymru  
uchafbwyntiau 2018/19

# Gweithio dros Gymru

**Mae Ystâd y Goron yn rheoli asedau morol a gwledig yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr uchafbwyntiau a'r prif ddatblygiadau yn ystod 2018/19.**

## Lleoedd gwych drwy fasnacheiddwch ymwybodol

Ym mhopeth a wnawn, cawn ein gyrru gan ddiiben clir: lleoedd gwych drwy fasnacheiddwch ymwybodol. Mae hyn yn golygu cymryd golwg hirdymor, ystyried yr hyn a wnawn o bob safbwynt, a gweithio mewn partneriaeth gyda chwsmeriaid, cymunedau a phartneriaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bawb.

## Meysydd cyfrifoldeb

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae hyn yn golygu fod gennym fuddiannau mewn ynni adnewyddadwy, pibellau olew a nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau pŵer. Yn ychwanegol, mae gennym hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, megis adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil. Rydym hefyd yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer o borthladdoedd ac wedi dyfarnu prydlesau tir i wahanol farinas.

Rydym yn parhau i gydweithredu a chydweithio gyda rhanddeiliaid a busnesau lleol allweddol. Un enghraifft o hyn yw o fewn porthladd prysur ac aml-swyddogaeth Aberdaugleddau. Dros y flwyddyn, wrth ochr trafodaethau dydd-i-ddydd gyda defnyddwyr y porthladd masnachol a chymdeithasau angori hamdden, rydym hefyd wedi sicrhau cytundeb am ailgyflwyno trin wystrys ac wedi llofnodi nifer o gytundebau am ddefnyddio offer profi ynni morol.

Ar y tir, rydym yn berchen tua 27,800 hectar (68,700 erw) o dir comin yng Nghymru, sydd yn bennaf yn dir garw ar gyfer pori ond sydd hefyd yn gweithredu fel adnodd naturiol pwysig i'w fwynhau gan bawb sydd â diddordeb yng nghefn gwlad Cymru.

Rydym hefyd yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o fuddiannau mwynau yn unig, gyda naw safle ar hyn o bryd ar les i gloddio mwynau. Yn ychwanegol, rydym yn berchen adneuo aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol. Mae dwy les Mwyngloddiau Brenhinol yng Nghymru, ynghyd â thri Cytundeb Opsiwn arall.

## Gweithio mewn partneriaeth

Caiff ein dull o reoli asedau yng Nghymru ei lunio gan ein gwerthoedd a'i seilio mewn dull partneriaeth sy'n ein gweld yn cydweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, deall ei nodau a gweithio gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau a rannwn. Er enghraifft, rydym yn rhan o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac wedi rhoi data ac arbenigedd i helpu gyda datblygu a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Rydym hefyd yn parhau i fwynhau perthynas gref gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth lle mae gennym ddaliadau i sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu ar ein cynigion ar gyfer Prydlesau Cylch 4, y cylch prydlesau gwynt ar y môr cyntaf mewn degawd, yn ogystal â thendr agregau morol. Mae mwy o wybodaeth ar gael islaw.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgorau a grwpiau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Gweithredu ac Ymgynghori Morol Cymru a'r Bartneriaeth Moroedd Glân i sicrhau ymagwedd gydlynol a rhannu gwybodaeth ar draws prosiectau morol.



## Uchafbwyntiau Cymru 2018/19


### Cefnogi ynni adnewyddadwy ar y môr

Cafodd sector gwynt ar y môr flwyddyn bwysig arall, gan weld capasiti gweithredol yn cynyddu i 7.7GW, sy'n gyfystyr â chyflenwi anghenion trydan 6.6 miliwn o gartrefi. Yn un o'r ffermydd gwynt gweithredol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, bu gan fferm wynt 576MW Gwynt y Môr, oddi ar arfordir gogledd Cymru ran sylweddol yn hyn ac mae wedi cadw Cymru ar flaen y sector hwn sy'n tyfu'n gyflym. Fodd bynnag, fe wnaeth haf hir a thesog 2018 a'r gostyngiad dilynol mewn cyflymder gwynt arwain at gwmp yn y referniw a dderbyniwyd gan ein portffolio Ynni, Mwynau a Seilwaith yng Nghymru eleni.

Ym mis Hydref 2018 fe wnaethom gyhoeddi cwblhau ein hasesiad dechreuol o geisiadau ymestyn gwynt ar y môr, gan gadarnhau fod wyth prosiect, yn cynrychioli hyd at 3.4GW o gapasiti newydd posibl, wedi pasio'r meini prawf ar gyfer ceisiadau ac y dyfernir hawliau yn amodol ar ganlyniad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun. Mae hyn yn cynnwys estyniad i Gwynt y Môr.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth gyda rhanddeiliaid a'r farchnad i ddatblygu a mireinio ein cynlluniau ar gyfer Prydlesau Cylch 4, sydd â'r potensial o sicrhau 7GW o gapasiti gwynt newydd ar y môr. Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Tachwedd 2017 y bwriadem wneud rhannau newydd o wely'r môr ar gael ar gyfer gwynt ar y môr, rydym wedi bod yn gweithio i greu proses dendr sy'n cefnogi marchnad aeddfed a ffyniannus. Cafodd ein dadansoddiad helaeth o gyfyngiadau gwely môr, adnoddau technegol a data ei rannu gyda diwydiant i helpu datblygwyr ddethol y safleoedd gorau ar gyfer eu prosiectau newydd.

Fel rhan o'r ymgysylltu, yn ystod rhan gynnar 2019 fe wnaethom rannu ein cynigion gydag Aelodau Cynulliad Cymru yn rhoi trosolwg o'r dadansoddiad gofodol helaeth sy'n sail i'n proses mireinio rhanbarthau gwely'r môr.

 Mae ein cynlluniau ar gyfer Prydlesau Cylch 4 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd, ac mae mwy o wybodaeth ar gael yma: [thecrownestate.co.uk/leasing-round-4](http://thecrownestate.co.uk/leasing-round-4)

Mae hyn yn gam pwysig tuag at greu cyfleoedd newydd i ddatgloi potensial ynni gwynt ar y môr yng Nghymru ac yn cefnogi dyfodol ynni glân y Deyrnas Unedig.

Mae gan Gymru hefyd botensial sylweddol am ynni tonnau a llanw. Rydym yn parhau i chwarae rôl wrth gefnogi'r sector drwy ymgysylltu gyda Gweithgor Ynni Morol Cymru a thrwy drafodaethau gyda'n cwsmeriaid ar y materion sy'n wynebu y safleoedd y dyfarnwyd les iddynt. Rydym yn parhau i gynnig y cyfle i roi mynediad i wely'r môr ar gyfer prosiectau hyd at 3MW neu brosiectau llif llanw hyd at 30MW.

### Agregau morol

Ystâd y Goron sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd bwysig i Gymru, gan ffurfio tua 70% o werthiannau tywod a gro yn Ne Cymru.

Yn 2018, roedd cyfanswm tunelli metrig yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru yn 605,360 tunnell fetrig, gyda 342,871 tunnell yn cael eu codi o ddyfroedd Cymru.

Eleni, fel rhan o'n hymgysylltu parhaus gyda Llywodreth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, fe wnaethom roi mewnbyn ar y polisi diwygiedig ar gyfer agregau morol a chefnogi ystyriaethau gweithredu fel rhan o waith datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Fe wnaethom hefyd lansio cylch trwyddedu agregau morol, a ddangosodd lefel iach o ddiddordeb gan dderbyn naw chynnyg, un ohonynt gyda diddordeb Cymreig. Yn amodol ar gasgliad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, byddwn yn dyfarnu hawliau ar gyfer Cytundebau Ymchwilio ac Opsiwn yn haf 2019.

Yn olaf, fe wnaethom gomisiynu cynhyrchu, a gosod, ein System Monitro Electronig (EMS) cenhedaeth nesaf ar fflyd treillio agregau morol y Deyrnas Unedig. Cyflwynwyd EMS yn wreiddiol i fonitro gweithgaredd alldynnu agregau morol yn 1993. Mae'r system ddiweddaraf yn cynnwys nifer o ddiweddariadau technegol ac rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cyflawni eu gofynion gorfodaeth rheoleiddiol.

### Rhannu wybodaeth


Mae ein timau arbenigol mewn safle unigryw i edrych ar y darlun ehangach ar draws ystod o sectorau, gan drin gofynion sy'n cystadlu am ofod a helpu i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gwnawn hyn drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid diwydiant a hwyluso gwell rhannu wybodaeth. Mae ein Cyfnewidfa Data Morol yn parhau i dyfu ac mae'n awr yn dal dros 16TB o ddata arolwg ar y môr a gasglwyd yn nyfroedd Cymru rhwng 1956 a 2018. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o ymgyrchoedd arolwg, yn cynnwys monitro amgylcheddol, ymchwiliad safle a data meteorolegol o sectorau fel gwynt ar y môr, ffrwd llanw ac agregau morol.



Mae dros hanner y data hwn ar gael i'r cyhoedd i gael mynediad iddo a'i lawrlwytho am ddim yn: [marinedataexchange.co.uk](http://marinedataexchange.co.uk)

Wrth i'r sector ar y môr barhau i dyfu, mae'n bwysig sicrhau y caiff ymchwil ynni morol a rhannu wybodaeth eu cydlynu i helpu adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Wrth ochr Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid diwydiant arall, rydym yn parhau i gefnogi'r Gyd-raglen Diwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni'r Môr. Mae hyn yn dod ynghyd â diwydiant, rheoleiddwyr, ymchwilwyr a chyllidwyr fel y caiff risgiau cydsynio'r sector eu cyfarch mewn modd strategol a chydlynol. Mae hyn yn osgoi dyblygu ymdrechion ac, yn ei dro, yn helpu i ostwng oedi wrth ddarparu prosiectau.



Uchafbwyntiau Cymru  
2018/19Uchafbwyntiau ariannol  
(heb eu harchwilio)

## Refeniw yn ôl gweithgaredd 2018/19

Portffolio	Refeniw
■ Ynni, Mwynau a Seilwaith	£4.8m
■ Gwledig ac Arfordirol	£2.5m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£7.3m</b>

Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd  
fel ar 31 Mawrth 2019

Portffolio	Refeniw
■ Ynni, Mwynau a Seilwaith	£65.0m
■ Gwledig ac Arfordirol	£28.0m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£93.0m</b>

## Ystâd y Goron Cymru

	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019 £m	Ystâd y Goron Cymru Cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol %	Ystâd y Goron Cymru Canran o'r cyfanswm %
<b>Refeniw</b>	<b>7.3</b>	8.0	<b>441.0</b>	421.9	<b>(8.8)</b>	<b>1.7</b>
Gwarged Gros	7.0	7.7	379.8	361.9	(9.1)	1.8
<b>Gwerth eiddo</b>	<b>93.0</b>	95.2	<b>12,526.1</b>	11,920.0	<b>(2.3)</b>	<b>0.7</b>
Buddsoddiadau Cyfalaf	0.2	0.4	381.3	273.8		
Derbyniadau Cyfalaf	-	4.8	192.8	415.7		
<b>Refeniw yn ôl gweithgaredd</b>	<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019 £m</b>	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m	<b>Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd</b>		<b>Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019 £m</b>	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2018 £m
Gwledig ac Arfordirol	2.5	2.6	Gwledig ac Arfordirol		28.0	28.0
Ynni, Mwynau a Seilwaith	4.8	5.4	Ynni, Mwynau a Seilwaith		65.0	67.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>7.3</b>	8.0	<b>Cyfanswm</b>		<b>93.0</b>	95.2

Mae refeniw a adroddwyd ar gyfer 2017/18 a'r gwaged crynswth ar gyfer Ynni, Mwynau a Seilwaith yn cynnwys addasiad unwaith yn unig o £0.4 miliwn.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf

**Llundain**  
The Crown Estate  
1 St James's Market, Llundain,  
SW1Y 4AH  
Ff 020 7851 5000

**Ar-lein**  
[www.thecrownestate.co.uk](http://www.thecrownestate.co.uk)

**Dilynwch ni ar Twitter**  
[@TheCrownEstate](https://twitter.com/TheCrownEstate)